# Asesiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2019- 2024

## Asesu llwyddiannau ein Strategaeth gyntaf :

**2019**

64 o weithwyr CSFf yn dysgu Cymraeg

97.18% wedi cwblhau asesiad sgiliau iaith Gymraeg

38.18% o weithwyr CSFf yn dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg

3.47% o weithwyr CSFf yn nodi bod ganddynt sgiliau lefel 5

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. This document is also available in English."

127 o weithwyr yn dysgu Cymraeg

99.32% o weithwyr CSFf wedi cwblhau asesiad sgiliau iaith Gymraeg

33.10% o weithwyr CSFf yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg

3.8% o weithwyr CSFf yn nodi bod ganddynt sgiliau lefel 5

80,481 o ymweliadau i dudalennau gwe Cymraeg ein gwefan

## Sgiliau Cymraeg Gweithlu ysgolion

| | W1 (0 Sgiiau) | W2 (Mynediad) | W3 (Sylfaen) | W4 (Canolraddl) | W5 (Uwch) | W6 (Hyfedredd) | W7 (Dim gwybodaeth) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion Cynradd** | | | | | | | |
| Athrawon | 0 | 78 | 235 | 96 | 39 | 66 | 0 |
| Staff Cymorth | 81 | 400 | 152 | 32 | 19 | 45 | 0 |
| **Ysgolion Uwchradd** | | | | | | | |
| Athrawon | 194 | 159 | 64 | 20 | 19 | 79 | 0 |
| Staff Cymorth | 84 | 42 | 8 | 6 | 2 | 7 | 0 |
| **Staff Cefnogi Anghenion Ychwanegol** | | | | | | | |
| Cynradd | 12 | 41 | 5 | 1 | 3 | 5 | 0 |
| Uwchradd | 6 | 9 | 6 | 2 | 1 | 4 | 0 |
| Arbennig | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Mae llai o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y Sir ond mae cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg**

## Ysgolion **Cyfrwng Cymraeg**

Nifer y disgyblion




DW I'N DYSGU CYMRAEG

Cymraeg

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Asesiad Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2019- 2024

## Nifer y siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran:




| Pobl sy'n 3 oed neu'n hŷn: | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 |
|---|---|---|
| Poblogaeth 3+ oed | 146,940 | 155,000 |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 4.4% | 5% |
| Yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 10.9% | 13.70% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 79.4% | 81.30% |
| Yn gallu siarad Cymraeg | 13.2% | 11.6% |

## Cynlluniau Chwarae'r Haf :

Yn 2025



20%

o weithlu'r Cynllun Chwarae yn siarad Cymraeg

20+

**o safleoedd Cynllun Chwarae'r Haf sy'n ddwyieithog**

## Nifer y perfformiadau / digwyddiadau / gweithgareddau a gyllidwyd:




### Grant i'r Mudiad Meithrin i ddarparu:

- Gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Prosiect Dechrau'n Deg
- Gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant mewn ardaloedd angen cymdeithasol uchel.
- Addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir
- Darparu lleoedd a gynorthwyir mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg

### Rydym wedi darparu cyllid i Urdd Gobaith Cymru ar gyfer:

- Sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc gwrdd â phobl ifanc eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu darpariaeth sy'n ymgysylltu â phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ac yn annog y Gymraeg yn ehangach.
- Sefydlu Prosiect i hyrwyddo cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion a thu allan i'r ysgol i annog a datblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, atgyfnerthu hunan-wydnwch a lles. *(Gan gynnwys clybiau cymunedol, clybiau amser cinio, gweithgareddau hamdden (un dydd neu breswyl),* gwaith grŵp, prosiectau cerddoriaeth, Eisteddfodau a Gweithgareddau Awyr Agored).
- Ymgynghori â phobl ifanc ar eu hanghenion a chyd-ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu'r anghenion a'r galw hynny.
- Cefnogi prosiectau pontio sy'n ceisio darparu ymyraethau gwaith ieuenctid unigryw gan gynnwys gweithgareddau awyr agored ac yn y gymuned i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.
- Ymgysylltu â gwirfoddolwyr Ieuenctid - creu gweithlu Cymraeg newydd.

### Yr hyn a wnaethom:

Theatr Clwyd

- Sefydlu grwpiau theatr ieuenctid Cymraeg (ochr yn ochr â grwpiau dwyieithog a dysgwyr Cymraeg). Mae partneriaeth gyda City of Sanctuary a Choleg Cambria i annog teuluoedd sy'n ffoaduriaid yng ngogledd Cymru i ddysgu'r Gymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn perfformiadau fel y pantomeim. Cyflwynodd y theatr ddramâu mewn Cymraeg ac roedd rhaglenni yn Gymraeg a Saesneg
- Cefnogi a datblygu awduron newydd yn y Gymraeg
- Cynyddu nifer y perfformiadau Cymraeg a dwyieithog

### Beth wnaethom ni ei ariannu :

- Grant ar gyfer Menter Iaith i ddarparu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn Sir y Fflint a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Drwy gyllid i sefydliad Menter Iaith Fflint a Wrecsam trefnwyd sawl digwyddiad, gweithgaredd a pherfformiad yn y gymuned, llyfrgelloedd ac ysgolion.